



Site Stakeholder Group

Summary of the key points from the Trawsfynydd Site Stakeholder Group Zoom Meeting held on the 10 June 2021

1. The Chairman thanked Angharad Rayner for the regular updates on the COVID situation on Site. He also referred to virtual meetings he had attended since the last SSG meeting in December 2020.
2. Angharad Rayner presented the Magnox Site Director's Report
3. Mr Iwan Williams NRW and Mr Mike Baggs Environmental Agency gave a briefing on the joint Natural Resource Wales/Environment Agency report.
4. Mr John McNamara Nuclear Decommissioning Authority gave an update of activities across the NDA Fleet.
5. Mr Ian Warner provided a presentation and update on the Ponds Project: Demolition and Disposal.
6. Dr John Idris Jones provided an update on developments within the Snowdonia Enterprise Zone
7. An update on recipients of the Magnox Socio-Economic Scheme was available in the meeting pack.



Site Stakeholder Group

Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting Thursday 10 June 2021 09.30 hrs Held via ZOOM

MINUTES

PRESENT

NAME

Cllr Keith O'Brien (Chair)
Angharad Rayner
Iwan Williams
Gareth Thomas
John Idris Jones
Iestyn Pritchard
Mike Baggs
Ian Warner
Sion Richards
Andrew Innes
Michelle Humphreys
Mair Jones
Bill Hamilton
Medwyn Williams
John McNarmara
Huw Jones
Rhys Llywelyn
Gwyn Roberts

Jill Callander
Ann Llwyd
Sydna Roberts
Ruth Corney

ORGANISATION

Trawsfynydd Community Council
Magnox, Site Director
Natural Resource Wales
Gwynedd Council
Snowdonia Enterprise Zone
National Farmers Union Wales
Natural Resource Wales/Environment Agency
Magnox End State Manager
Magnox, Head of Rad Protection
Magnox EHSS&Q Manager
Magnox Comms Regional Lead
Magnox Socio-economic Scheme
Magnox Communications Director
Penrhyndeudraeth Town Council
NDA
Farmers Union of Wales
Prysor Angling Association
Gwynedd/Diffwys & Maenofferen, Cyngor Tref
Ffestiniog
SSG Secretariat
Cymen - translator
Cymen – minute taker
Marik Communications

1. Apologies for absence

The Chair welcomed everyone to the meeting at 0930 hrs. The following apologies were noted:-

Andy McAteer,	Magnox, Maentwrog
Ian Dallas,	ONR
Gwyn Hughes,	Emergency Planning Officer
Cllr. Elfed Roberts	Gwynedd Council
Cllr John Llewelyn Richards (Vice-Chair)	Talsarnau Community Council
Huw Jones	Gwynedd Council
Sioned Williams	Menter Eryri
Dylan Griffiths	Gwynedd Council
Jonathan Jenkins	NDA
Gwen Pettifor	Woman's Institute

2. Approve the Minutes of the meeting held on 3 December 2020

Minutes of the meeting held on 3 December 2020 were presented and accepted as a correct record – Proposed by John Idris Jones and seconded by Mike Baggs.

3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 30.7.20

None raised

4. Chairman's Address – Keith O'Brien

The Chair welcomed all to the meeting and provided a brief update on the numerous national

Stakeholder meetings that have been held via ZOOM since the last meeting in December with the points of discussions as follows:-

National SSG Terms of Reference
Holliday Report (Magnox Inquiry)
Mark Foy ONR update on SMR scrutiny / supervision
Bill Hamilton's statement in the NuLeaf Newsletter

The Chair also noted that it was pleasing to note that Magnox continued to invest in Maentwrog with work undertaken at the end of March on the bridge between the site and the lake.

He wished to thank all for attending virtually and hoped very much that the next meeting would be face to face at the site.

5. Site Director's Report – Angharad Rayner

Angharad Rayner, Site Director thanked the Chair for his welcome and regretted that the proposed site visit today was not able to take place. She presented her report summarised as follows:-

Safety Focus

Members were shown a short informative video on safety within the home. It is estimated that in the UK there are approximately 6,000 deaths every year as a result of accidents at home. Falls are the most common accidents that cause serious injury or death and the risk increases with age. The video served to apply workforce safety techniques to the home environment.

Safety on Site

Number of days since a lost time accident: 1769 (9/6/21). Whilst Trawsfynydd has maintained an excellent safety record, three people have been injured on Magnox sites in recent weeks. Two have suffered broken bones and one has had surgery. Small changes to the work or work environment were a factor and could have been prevented had the change in configuration or conditions been challenged. A companywide safety campaign and stand down was held in May to refocus minds on the risks of being distracted

COVID 19

A group of 11 volunteer Covid-19 marshals are providing guidance to colleagues on the behaviour required by everyone while on site. The main room in the visitor centre was established as a workforce lateral flow testing facility in March. Thermal monitoring entry systems also went into operation at all turnstiles to scan everyone on arrival and indicate if an individual registers a high temperature reading greater than 37.8 Celsius prior to entering site.

As Magnox follows the road maps set out for England, Scotland and Wales to a more normal way of life, a mixed testing regime will be introduced, with all employees attending sites in England and Wales encouraged to test weekly using a variety of testing options with direct reporting to the NHS Test and Trace facility.

Workforce Profile

Magnox is recruiting apprentices again, with Trawsfynydd taking on three craft apprentices in September 2021. Some roles are being approved for advertising externally to recruit new Magnox staff.

Magnox	151
Agency supplied workers	44
Contractor supplied workers	14

Total	209
% local	97%

Workforce Training

Magnox has teamed up with EqualEngineers as part of the nationwide roll out of their training session “Engineering a Winning Workforce: Engaging the Majority” to the UK nuclear sector. A virtual session was delivered to 183 members of the site workforce in February. The number of mental health first aiders on site has also increased.

Site Exercises

There have been 16 site exercises since January in the following categories: Security (5); Radiological contamination (4); Site fire drill (1); Principal contractor’s fire drills (2); Task Observations (2); and Working at height (2)

Smarter Working Programme

It was noted that the global pandemic has caused many to think differently about how daily work is undertaken, from reframing workspaces as Covid secure to meeting virtually.

To this end Magnox convened a working group last summer and the Smarter Working programme was formed to look at ways we can give people the option to work in a way they find most productive. The programme has five work streams: behaviours and culture, technology, smarter spaces, HR and security.

Trawsfynydd is the lead and learn site for Smarter Working with a trial underway for plant technicians to use tablet devices when working out in the field rather than having to return to the office to check documentation. One area that can have real safety benefits is being able to use these devices in radiologically controlled areas.

An employee survey conducted in May highlighted that 70% of the site would like to continue to work virtually or have a blended work location.

Health & Wellbeing Group

Throughout the pandemic the Site’s Health & Wellbeing group has been offering a range of activities to support the physical and mental health of the workforce. All the events have been hosted virtually to ensure accessibility to site based and home workers alike including a mindful self-care webinar, a wellbeing toolbox webinar, yoga sessions, and meditation and coffee mornings

Young people’s network

Magnox is working with STEM Gogledd Cymru to establish a young people’s network at Trawsfynydd including site apprentices, placements for nuclear graduates and Year 10 and 12 pupils from local Secondary School and 6th form Colleges.

2020/21 waste achievements

The waste operations team hit their target of retrieving 33.4 tonnes of intermediate level waste (ILW) which consisted of:

- bulk waste retrieval from the north FED vaults complete.
- 50% retrieved from the south FED vault.
- 43% of drummed FED waste from the Magnox debris handling and storage facility.
- 10 LLW consignments

Asset management achievements

The main site car park was refurbished by local supplier TD Plant a week ahead of schedule in March and OBR ensured the Pen y Bryn office accommodation roof was watertight for winter.

2020/21 Plant & Structures achievements

In February, principal contractor Erith completed asbestos clearance of the first two cable risers in Safestore 1 ahead of schedule and have now concluded all in Safestore 1 and 4 of the 6 in Safestore 2.

Waste operations progress

A new intermediate level waste retrievals campaign to import drums from the Magnox debris storage and handling facility to the north fuel element debris (FED) plant commenced in December 2020 with 74 x 500 litre drums achieved to date.

The first box of intermediate level waste from the active waste vaults was loaded with eight drums of encapsulated waste from ponds drain seven in January. The first since the pandemic began in March 2020.

Ponds complex de-plant

The valve handles and redundant plant have been removed from the south filter gallery. It was noted that work is well underway to de-plant by hand seven large stainless steel tanks, eight pumping units, electrical cabling and over 500 metres of pipework from the active effluent treatment plant basement - solid waste removed was 17.450 tonnes

Safestore height reduction enabling works

There are 136 inner wall openings being created in the safestores in total of varying sizes and materials and 108 have been completed to date

The Chair thanked AR for her presentation and noted the substantial progress made on site during these challenging times.

Q and A Session

None presented.

6. Report by the Office for Nuclear Regulation – Ian Dallas

A written report was circulated with the meeting papers and Mr Ian Dallas, who had tendered his apologies for this meeting, noted that he would be happy to respond to any queries/issues presented via Jill Callander.

7. Report by Natural Resources Wales – Iwan Williams

Mr Iwan Williams was welcomed to the meeting. He explained that contact between both the Trawsfynydd site and NRW had continued virtually every two weeks. Discussions regarding de-commissioning of the site will continue to progress.

8. Environment Agency Report – Mike Baggs

Mike Baggs presented members with an Environment Agency update noting that there had been good interaction with the site over the past 12-18 months. He noted that Magnox compliance had been suitable within the constraints of the pandemic. Relative meetings regarding the demolition of the ponds complex will increase as the project progresses. An incident regarding treating an effluent leak from a fractured pipe due to cold temperature ground movement was undertaken in line with environmental requirements and regulations. The Chair thanked both Iwan Williams and Mike Baggs for their updates.

Question and Answer Session

Iestyn Prtichard NFU enquired as to the nature of the treated effluent. IW confirmed that it was flow from the sites sewerage system which is regularly treated before being pumped into the lake. It is regulated by site under licence,

9. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – John McNamara

Mr John McNamara was welcomed to the meeting and tendered Jonathan Jenkins apologies for absence due to ill-health. He provided a summary of the NDA report drawing particular attention to the following:-

COVID 19

NDA staff are continuing to work from home where possible with the expectation that more staff will return to offices from 21 June, subject to the next stage in the Government's roadmap. He stated that there were low rates of Covid 19 across NDA group. Consideration is currently being given to when there may be a return to more face-to-face engagement with stakeholders; however it is intended to hold a Stakeholder summit virtually in October 2021 and reschedule the Edinburgh one to October 2022.

Stakeholder Engagement

Benchmarking SSG's - The NDA are looking at a virtual or blended approach, or face to face. A survey from Magnox will be carried out in the near future

New Appointments

Dounreay transferred to NDA ownership on 1st April 2021 and Mark Rouse was appointed as Managing Director on 1st April 2021

The new NDA group transport company Nuclear Transport Solutions was launched on 30 April 2021. The company will bring together all transport businesses into a single organisation – Direct Rail Services, International Nuclear Services and Pacific Nuclear Transport Ltd. The NTS Chair, Wanda Goldwag was appointed on 18 May

NDA Strategy 4

The NDA Strategy 4 was published on 18 March 2021 following Ministerial approval with 71 responses received to the Consultation. A Stakeholder response documents will be published alongside the Strategy.

NDA Business Plan 2021- 24

The business plan was published on 22 March 2021 which sets out key activities and progress across the NDA group for next three financial years in line with Spending Review settlement. 16 consultation responses were received and are included upfront in the Business Plan.

NDA Sustainability Report

The first NDA Sustainability Report was published on 8 March 2021. It serves to explore investing in people, communities and protecting the environment for long-term future use. It also identifies key opportunities and projects to improve sustainability across NDA group

Annual Reports and Accounts

The above report has been recognised as an example of best practice in public sector by National Audit Office (NAO). The 'Mission Progress' section was highlighted as a way of presenting complex information in accessible format. The report is regarded as an important vehicle for communicating progress to stakeholders

Gender Pay Gap report

A Gender Pay Gap report for the NDA group and corporate centre was released on 24 March 2021. It highlighted that, across the group, the pay gap is 13.1% (mean) and 12.4% (median); a small decrease compared with the previous year. Five focus areas have been identified to address gender pay gap.

Holiday Report

The above report on the Magnox Inquiry was published on 4 March 2021. The NDA welcomed Mr Holliday's recommendations and intends to publish a formal response later this year. JM stated that

the NDA is now a much stronger organisation, operating under a very different Model. He also noted that interim recommendations of 2017 have already been acted upon.

GDF Working Group

Radioactive Waste Management (RWM) has welcomed the formation of the first two Working Groups in Copeland and Allerdale which will commence local discussions and fact-finding about potentially siting a GDF. JM noted, however, that this does not guarantee that a GDF will be sited in Cumbria or preclude other communities from establishing Working Groups

NDA Supply Chain event

JM confirmed a new date for the above event - 3 February 2022 at The International Centre, Telford following the postponement from June 2020 due to the Covid pandemic. A Supply Chain Award's ceremony will be held on the on same day with deadline for applications at 12:00 on 1 October 2021. He stated that this is the largest supply chain event in Europe with 1,700 visitors and over 300 suppliers

NDA SSG Forum on 11 June 2021 with David Peattie and Dr Ros Rivaz attending.

The Chair thanked Mr McNamara for his presentation and asked that he forward the SSG's good wishes for a speedy recovery to Jonathan Jenkin.

Question and Answer Session

None presented.

10. Ponds Project - Demolition and Disposal update – Ian Warner

Mr Ian Warner was welcomed to the meeting and provided a presentation update on the above summarised as follows:-

Current position

- Draft 'GRR' guidance published in 2018: operators and stakeholders to consider best option for disposing of remaining lightly contaminated radioactive wastes generated during the remaining decommissioning programme
- Strategy for Trawsfynydd ponds complex revised accordingly
- Project established to deliver Phase 1 work: looking at characterisation of buildings; environmental impacts; necessary planning permission and permits and ongoing engagement activity

Scope of the proposed development

- Demolition and backfilling of the ponds complex to implement the 'Disposal Area Interim State':
- In-situ disposal of buried radioactive features (no physical works required)

Proposed Engagement

Magnox

Magnox plan to deliver non-statutory engagement activities, including animated fly-around video for use in regulator/planning/stakeholder briefings; Online updates/information provision; Informal briefings with stakeholders; attendance at local community events prior to application and face to face community engagement sessions

Avison Young

Avison Young will represent Magnox for all statutory activities, including co-ordinating and managing the pre-application public consultation exercise. They will also develop the pre-application consultation report setting out the mandatory consultation methodology and analysis

In summary

- This is a standalone planning application
- Delivering the ponds complex to its Area Interim State frees up space that could be used for future decommissioning activities
- There are complexities to the application; a Planning Performance Agreement (PPA) is being sought to facilitate engagement with Snowdonia National Park Authority and Sustainable Drainage Systems approving body
- Magnox will be engaging with General Counsel to support the preparation of the Environmental Statement and planning application

The Chair thanked IW for his presentation and wished him well in his imminent retirement.

Question and Answer session

None presented

11. AOB

- **Snowdonia Enterprise Zone – Dr John Idris Jones**

Dr John Idris Jones was welcomed to the meeting and wished to reiterate the Chairs good wishes to Ian Warner on his retirement. He also wished to note the good news as regards the restart of apprenticeships in Traws – excellent opportunities for local young people. He went on to provide a brief update on Enterprise Zone developments as follows:-

Llanbedr

- Welsh Government are about to publish a Wales aerospace website – Routemap for Space.
- Central Government are discussing how to regulate site such as Llanbedr and part of the work includes aerospace in Cardigan Bay. Awaiting the conclusion of a CAA survey at the end of this month.
- Infrastructure – funds allocated for a by-pass and amended entrance and work will begin February 2022

Trawsfynydd

SMR – studies ongoing on the economic effect on North Wales and North West England.

Cwmni Eginio is being registered with Companies House this week. JIJ has been appointed Interim Chair of the company and expressed his wish to continue the good collaborative work undertaken with partners to date.

The Chair thanked JIJ for his update and congratulated him on his appointment as Chair of Cwmni Eginio. Gareth Thomas Cabinet member for Economy at Gwynedd Council was pleased to note the above developments seconded the Chair congratulations to JIJ.

- **Magnox socio-economic scheme update – Mair Jones**

Mair Jones stated that a full report on expenditure was part of the pack and that she was happy to respond to any queries or questions via mair.jones@magnoxistes.com or 07850 921669

The Chair also wished Michelle Humphreys well in her new post after 15 years' service supporting the site as Regional Lead and for her work with the Socio-Economic Scheme.

12. Next SSG Meeting

Date: 9 December 2021



Site Stakeholder Group

Crynodeb o'r prif bwyntiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a gynhaliwyd dros Zoom ar 10 Mehefin 2021

1. Diolchodd y Cadeirydd i Angharad Rayner am y diweddariadau rheolaidd ynghylch y sefyllfa COVID ar y Safle. Cyfeiriodd hefyd at gyfarfodydd ar-lein y bu ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Grŵp ym mis Rhagfyr 2020.
2. Cyflwynodd Angharad Rayner Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Magnox.
3. Rhoddodd Iwan Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Mr Mike Baggs, Asiantaeth yr Amgylchedd, wybodaeth am yr adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.
4. Rhoddodd Mr John McNamara, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ar draws Fflyd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.
5. Rhoddodd Mr Ian Warner gyflwyniad a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Pyllau: Dymchwel a Gwaredu.
6. Rhoddodd Dr John Idris Jones yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn Ardal Fenter Eryri.
7. Roedd pecyn y cyfarfod yn cynnwys diweddariad gan Mair Jones am y rhai sydd wedi derbyn arian gan Gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox.



Site Stakeholder Group

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd Dydd Iau 10 Mehefin 2021 am 09.30 o'r gloch Cynhaliwyd dros ZOOM

COFNODION

YN BRESENNOL

ENW

Y Cyng. Keith O'Brien (Cadeirydd)
Angharad Rayner
Iwan Williams
Gareth Thomas
John Idris Jones
Iestyn Pritchard
Mike Baggs

Ian Warner
Sion Richards
Andrew Innes

Michelle Humphreys
Mair Jones
Bill Hamilton
Medwyn Williams
John McNarmara
Huw Jones
Rhys Llywelyn
Gwyn Roberts

Jill Callander
Ann Llwyd
Sydna Roberts
Ruth Corney

SEFYDLIAD

Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Magnox, Cyfarwyddwr y Safle
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Gwynedd
Ardal Fenter Eryri
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr
Amgylchedd
Magnox, Rheolwr Cyflwr Terfynol
Magnox, Pennaeth Diogelu rhag Ymbelydredd
Magnox, Rheolwr yr Amgylchedd, Iechyd,
Diogelwch ac Ansawdd
Magnox, Arweinydd Cyfathrebu Rhanbarthol
Magnox, Cynllun Economaidd-gymdeithasol
Magnox, Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear
Undeb Amaethwyr Cymru
Cymdeithas Bysgota Prysor
Gwynedd/Diffwys a Maenofferen, Cyngor Tref
Ffestiniog
Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
Cymen – cyfieithydd
Cymen – cofnodydd
Marik Communications

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 09:30 o'r gloch. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:-

Andrew McAteer,
Ian Dallas,
Gwyn Hughes,
Y Cyng. Elfed Roberts
Y Cyng. John Llewelyn Richards (Is-gadeirydd)
Huw Jones
Sioned Williams
Dylan Griffiths
Jonathan Jenkins
Gwen Pettifor

Magnox, Maentwrog
Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Swyddog Cynllunio at Argyfwng
Cyngor Gwynedd
Cyngor Cymuned Talsarnau
Cyngor Gwynedd
Menter Eryri
Cyngor Gwynedd
Yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear
Woman's Institute

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir – Cynigiwyd gan John Idris Jones ac eiliwyd gan Mike Baggs.

3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30.7.20

Ni chodwyd unrhyw fater

4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a rhoddodd ddiweddariad byr am yr amryw o gyfarfodydd cenedlaethol â rhanddeiliaid sydd wedi cael eu cynnal dros Zoom ers y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr, gyda'r pwyntiau trafod canlynol:-

Cylch Gorchwyl Cenedlaethol Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Adroddiad Holliday (Ymchwiliad Magnox)

Diweddariad gan Mark Foy, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, ar oruchwyllo / craffu ar SMR

Datganiad Bill Hamilton yng Nghylchlythyr NuLeaf

Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei bod yn braf nodi bod Magnox wedi parhau i fuddsoddi ym Maentwrog, gyda'r gwaith a wnaed ddiwedd mis Mawrth ar y bont rhwng y safle a'r llyn.

Roedd am ddiolch i bawb am ddod i'r cyfarfod ar-lein, ac yn gobeithio'n fawr y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb ar y safle.

5. Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Safle – Angharad Rayner

Diolchodd Angharad Rayner, Cyfarwyddwr y Safle, i'r Cadeirydd am ei groeso a dweud ei bod yn drueni nad oedd modd cynnal yr ymweliad â'r safle heddiw. Cyflwynodd ei hadroddiad, a dyma grynodedd ohono:-

Canolbwyntio ar Ddiogelwch

Dangoswyd fideo byr i'r aelodau a oedd yn rhoi gwybodaeth am ddiogelwch yn y cartref. Amcangyfrifir bod tua 6,000 o farwolaethau yn y DU bob blwyddyn o ganlyniad i ddamweiniau yn y cartref. Syrthio yw'r ddamwain fwyaf cyffredin sy'n achosi anaf difrifol neu farwolaeth, ac mae'r risg yn cynyddu gydag oedran.

Roedd y fideo yn egluro sut i roi technegau diogelwch y gweithlu ar waith yn y cartref.

Diogelwch ar y Safle

Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 1769 (9/6/21). Er bod gan safle Trawsfynydd record ddiogelwch ardderchog, mae tri o bobl wedi cael eu hanafu ar safleoedd Magnox yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae dau wedi torri esgyrn ac mae un wedi cael llawdriniaeth. Roedd newidiadau bach i'r gwaith neu'r amgylchedd gwaith yn ffactor, a gellid fod wedi atal y damweiniau pe bai'r newid yn y ffurfweddiad neu'r amodau wedi cael eu herio. Cafodd sesiwn ac ymgyrch ddiogelwch eu cynnal ar draws y cwmni ym mis Mai er mwyn canolbwyntio o'r newydd ar y peryglon pan fydd rhywbeth arall yn mynd â'ch sylw.

COVID 19

Mae grŵp o 11 o stiwardiaid Covid-19 gwirfoddol yn rhoi arweiniad i gydweithwyr ar yr ymddygiad sy'n ofynnol gan bawb ar y safle. Ym mis Mawrth cafodd y brif ystafell yn y ganolfan ymwelwyr ei sefydlu fel cyfleuster profion llif unffordd ar gyfer y gweithlu. Roedd systemau monitro gwres hefyd wedi dechrau cael eu defnyddio wrth bob giât mynediad er mwyn sganio pawb wrth iddyn nhw gyrraedd, a dangos a oes gan unigolyn dymheredd uchel sy'n fwy na 37.8 Celsius cyn mynd i mewn i'r safle.

Gan fod Magnox yn dilyn y llwybrau sydd wedi cael eu hamlinellu ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban tuag at ffordd o fyw fwy normal, bydd trefn brofi gymysg yn cael ei chyflwyno, gyda phob gweithiwr sy'n mynd i safleoedd yng Nghymru a Lloegr yn cael ei annog i gael prawf wythnosol gan ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau profi, a rhoi gwybod yn uniongyrchol i gyfleuster Profi ac Orlhain y GIG.

Proffil y Gweithlu

Mae Magnox yn recriwtio prentisiaid unwaith eto, gyda safle Trawsfynydd yn derbyn tri phrentis crefft ym mis Medi 2021. Mae rhai swyddi'n cael eu cymeradwyo i gael eu hysbysebu'n allanol er mwyn recriwtio staff newydd i Magnox.

Magnox	151
Gweithwyr asiantaeth	44
Gweithwyr contractwyr	14
Cyfanswm	209
% sy'n lleol	97%

Hyfforddi'r Gweithlu

Mae Magnox wedi ymuno ag EqualEngineers fel rhan o'r broses o gyflwyno ei sesiwn hyfforddi "Engineering a Winning Workforce: Engaging the Majority" yn genedlaethol i'r sector niwclear yn y DU. Cafodd sesiwn ar-lein ei chynnal i 183 o aelodau o weithlu'r safle ym mis Chwefror. Mae nifer y swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl ar y safle wedi cynyddu hefyd.

Ymarferion ar y Safle

Mae 16 o ymarferion ar y safle wedi cael eu cynnal ers mis Ionawr, yn y categorïau canlynol: Diogelwch (5); Halogiad radiolegol (4); Ymarfer tân y safle (1); Ymarferion tân y prif gontractiwr (2); Arsylwi Tasg (2); a Gweithio mewn mannau uchel (2)

Y Rhaglen Gweithio'n Ddoethach

Nodwyd bod y pandemig byd-eang wedi gwneud i lawer feddwl yn wahanol am y ffordd mae gwaith bob dydd yn cael ei wneud, o ailddiffinio mannau gwaith fel rhai sy'n ddiogel o ran Covid, i gyfarfodydd ar-lein.

I'r perwyl hwn roedd Magnox wedi cynnull gweithgor yr haf diwethaf, a ffurfiwyd y rhaglen Gweithio'n Doethach i ystyried sut gallwn ni roi'r opsiwn i bobl weithio yn y ffordd maen nhw'n teimlo sydd fwyaf cynhyrchiol iddyn nhw.

Mae gan y rhaglen bum ffrwd waith: ymddygiad a diwylliant, technoleg, mannau clyfar, adnoddau dynol a diogelwch.

Trawsfynydd ydy'r safle arwain a dysgu ar gyfer Gweithio'n Ddoethach. Mae treial ar y gweill i dechnegwyr peiriannau ddefnyddio dyfeisiau tabled wrth wneud gwaith maes yn hytrach na gorfod dychwelyd i'r swyddfa i wirio dogfennau. Un elfen sy'n gallu cynnig manteision diogelwch go iawn yw gallu defnyddio'r dyfeisiau hyn mewn ardaloedd sy'n cael eu rheoli'n radiolegol.

Mewn arolwg gweithwyr a gynhaliwyd ym mis Mai, gwelwyd y byddai 70% o'r safle'n dymuno parhau i weithio ar-lein neu fod ganddynt leoliad gwaith cyfunol.

Y Grŵp Iechyd a Lles

Drwy gydol y pandemig, mae grŵp Iechyd a Lles y Safle wedi bod yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl y gweithlu. Mae'r holl ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal ar-lein i sicrhau eu bod ar gael i weithwyr yn y safle ac yn y cartref fel ei gilydd, gan gynnwys gweminar hunanofal ystyriol, gweminar adnoddau lles, sesiynau ioga, a boreau coffi a myfyrio.

Rhwydwaith pobl ifanc

Mae Magnox yn gweithio gyda STEM Gogledd Cymru i sefydlu rhwydwaith i bobl ifanc yn Nhrawsfynydd, sy'n cynnwys prentisiaid y safle, lleoliadau gwaith i raddedigion ym maes niwclear, a disgyblion Blynyddoedd 10 a 12 o Ysgolion Uwchradd a Cholegau chweched dosbarth lleol.

Llwyddiannau ym maes gwastraff yn 2020/21

Llwyddodd y tîm gweithrediadau gwastraff i gyrraedd ei darged o adfer 33.4 tonnelli o wastraff lefel ganolraddol a oedd yn cynnwys:

- cwblhau'r gwaith o adfer gwastraff o gladdgelloedd FED y gogledd.

- adfer 50% o gladdgell FED y de.
- 43% o wastraff FED mewn drymiau o gyfleuster trin a storio gweddillion Magnox.
- 10 llwyth gwastraff lefel isel

Llwyddiannau ym maes rheoli asedau

Cafodd maes parcio'r prif safle ei adnewyddu ym mis Mawrth gan TD Plant, cyflenwr lleol, wythnos yn gynt na'r disgwyl, ac roedd OBR wedi sicrhau bod to swyddfa Pen y Bryn yn dal dŵr ar gyfer y gaeaf.

Llwyddiannau ym maes Peiriannau a Strwythurau yn 2020/21

Ym mis Chwefror gorffennodd y prif gcontractwr, Erith, y gwaith o glirio asbestos yn y ddau 'cable riser' cyntaf yn Storfa Ddiogel 1 yn gynt na'r disgwyl, ac mae'r gwaith i gyd wedi'i gwblhau bellach yn Storfa Ddiogel 1 a 4 o'r 6 yn Storfa Ddiogel 2.

Cynnydd gweithrediadau gwastraff

Ym mis Rhagfyr 2020, dechreuodd ymgyrch newydd i adfer gwastraff lefel ganolraddol er mwyn mewngludo drymiau o gyfleuster storio a thrin gweddillion Magnox i gyfleuster trin gweddillion elfennau tanwydd (FED) y gogledd, gyda 74 o ddrymiau 500 litr wedi'u sicrhau hyd yma.

Cafodd y blwch cyntaf o wastraff lefel ganolraddol o'r claddgelloedd gwastraff gweithredol ei lwytho gydag wyth drwm o wastraff wedi'i gasglu o ddraeniau pyllau saith ym mis Ionawr – y cyntaf ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020.

Tynnu peiriannau o gyfateilad y pyllau

Mae handlenni falfiau a pheiriannau segur wedi cael eu tynnu o'r oriel hidlo'r de. Nodwyd bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda i dynnu saith tanc dur gwrthstaen mawr, wyth uned bwmpio, ceblau trydan a dros 500 metr o bibellau o islawr y cyfleuster trin elifion gweithredol – cafodd 17.450 tonnelli o wastraff soled ei dynnu oddi yno.

Gwaith i ostwng uchder y storfa ddiogel

Mae cyfanswm o 136 o agoriadau mewn waliau mewnol yn cael eu creu yn y storfeydd diogel, a'r rheini o bob maint ac o wahanol ddeunyddiau. Mae 108 wedi cael eu cwblhau hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i AR am ei chyflwyniad, a nododd y cynnydd sylweddol a wnaed ar y safle yn ystod y cyfnod heriol yma.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Ian Dallas

Roedd adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei ddsbarthu gyda phapurau'r cyfarfod, ac roedd Mr Ian Dallas, a oedd wedi ymddiheuro ar gyfer y cyfarfod hwn, wedi dweud y byddai'n fodlon ymateb i unrhyw ymholiadau/materion a fyddai'n cael eu cyflwyno drwy Jill Callender.

7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Iwan Williams

Croesawyd Mr Iwan Williams i'r cyfarfod. Eglurodd fod safle Trawsfynydd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i gysylltu ar-lein bob pythefnos. Bydd y trafodaethau ynghylch datgomiynu'r safle yn parhau.

8. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd – Mike Baggs

Rhododd Mike Baggs ddiweddariad Asiantaeth yr Amgylchedd i'r aelodau, gan ddweud y bu rhyngweithio da â'r safle dros y 12-18 mis diwethaf. Dywedodd fod cydymffurfiaeth Magnox wedi bod yn addas o fewn cyfyngiadau'r pandemig. Bydd mwy o gyfarfodydd perthnasol ynghylch dymchwel cyfateilad y pyllau yn cael eu cynnal wrth i'r prosiect ddatblygu. Roedd digwyddiad yn ymwneud â thrin elifion a oedd yn gollwng o bibell a oedd wedi torri oherwydd bod y tir yn oer wedi cael sylw yn unol â

gofynion a rheoliadau amgylcheddol. Diolchodd y Cadeirydd i Iwan Williams a Mike Baggs am eu diweddariadau.

Sesiwn Holi ac Ateb

Gofynnodd Iestyn Pritchard, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, beth oedd natur yr elifion hynny. Cadarnhaodd IW fod yr elifion wedi llifo o system garthffosiaeth y safle, sy'n cael ei thrin yn rheolaidd cyn pwmpio carthffosiaeth i'r llyn. Mae'n cael ei rheoleiddio gan y safle o dan drwydded.

9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear – John McNamara

Croesawyd Mr John McNamara i'r cyfarfod, a chyflwynodd ymddiheuriadau Jonathan Jenkins am fod yn absennol oherwydd salwch. Rhoddodd grynoded o adroddiad yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear (NDA), gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

COVID 19

Mae staff yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear yn parhau i weithio gartref lle bo modd, gyda'r disgwyliad y bydd mwy o staff yn dychwelyd i'r swyddfeydd o 21 Mehefin ymlaen, yn amodol ar y cam nesaf yng nghyfarwyddyd y Llywodraeth. Dywedodd fod y cyfraddau Covid 19 yn isel ar draws grŵp yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear. Mae pryd y gellir aildddechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel fwy wyneb yn wyneb o dan ystyriaeth ar hyn o bryd; fodd bynnag, bwriedir cynnal Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid ar-lein ym mis Hydref 2021, ac aildrefnu'r un yng Nghaeredin at fis Hydref 2022.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Meincodi Grwpiau Rhanddeiliaid y Safle – Mae'r Awdurdod Datgomiysynu Niwclear yn ystyried dull ar-lein neu gyfunol, neu wyneb yn wyneb. Bydd arolwg gan Magnox yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

Penodiadau Newydd

Trosglwyddwyd Dounreay i berchnogaeth yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear ar 1 Ebrill 2021, a phenodwyd Mark Rouse yn Rheolwr Gyfarwyddwr ar 1 Ebrill 2021.

Lansiwyd cwmni cludiant newydd yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear, Nuclear Transport Solutions, ar 30 Ebrill 2021. Bydd y cwmni'n dod â'r holl fusnesau cludiant at ei gilydd mewn un sefydliad – Direct Rail Services, International Nuclear Services a Pacific Nuclear Transport Ltd. Penodwyd Cadeirydd yr NTS, Wanda Goldwag, ar 18 Mai.

Strategaeth 4 yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear

Cyhoeddwyd Strategaeth 4 yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear ar 18 Mawrth 2021 ar ôl cael sêl bendith Gweinidogol, a chafwyd 71 o ymatebion i'r Ymgynghoriad. Bydd dogfennau ymateb y rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth.

Cynllun Busnes 2021-24 yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear

Cafodd y cynllun busnes ei gyhoeddi ar 22 Mawrth 2021, ac mae'n amlinellu'r prif weithgareddau a'r cynnydd ar draws grŵp yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, yn unol â setliad yr Adolygiad o Wariant. Cafwyd 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac maen nhw wedi cael eu cynnwys yn agored yn y Cynllun Busnes.

Adroddiad Cynaliadwyedd yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear

Cyhoeddwyd Adroddiad Cynaliadwyedd cyntaf yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear ar 8 Mawrth 2021. Ei nod yw ystyried buddsoddi mewn pobl a chymunedau, ac amddiffyn yr amgylchedd er mwyn ei ddefnyddio'n hirdymor i'r dyfodol. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd a phrosiectau allweddol i wella cynaliadwyedd ar draws grŵp yr Awdurdod Datgomiysynu Niwclear.

Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r adroddiad uchod wedi cael ei gydnabod fel enghraifft o arfer gorau yn y sector cyhoeddus gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Tynnwyd sylw at yr adran 'Mission Progress' fel ffordd o gyflwyno gwybodaeth gymhleth mewn fformat hwylus. Mae'r adroddiad yn cael ei ystyried yn gyfrwng pwysig i gyfleu cynnydd i randdeiliaid.

Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Cafodd adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer grŵp yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r ganolfan gorfforaethol ei gyhoeddi ar 24 Mawrth 2021. Roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y bwlch cyflog, ar draws y grŵp, yn 13.1% (cymedr) ac yn 12.4% (canolrif); gostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae pum maes ffocws wedi cael eu nodi i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Adroddiad Holliday

Cafodd yr adroddiad uchod ar Ymchwiliad Magnox ei gyhoeddi ar 4 Mawrth 2021. Croesawodd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear argymhellion Mr Holliday, ac mae'n bwriadu cyhoeddi ymateb ffurfiol yn nes ymlaen eleni. Dywedodd JM fod yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn sefydliad llawer cryfach erbyn hyn, sy'n gweithredu o dan Fodel gwahanol iawn. Dywedodd hefyd fod argymhellion interim 2017 wedi cael eu rhoi ar waith yn barod.

Gweithgor GDF

Mae Radioactive Waste Management (RWM) wedi croesawu'r ddau Weithgor cyntaf sydd wedi cael eu ffurfio yn Copeland ac Allerdale, a fydd yn dechrau mynd ati ar lefel leol i drafod a chasglu gwybodaeth ynghylch y posibilrwydd o leoli GDF yno. Fodd bynnag, dywedodd JM nad yw hyn yn gwarantu y bydd GDF yn cael ei leoli yn Cumbria, nac yn atal cymunedau eraill rhag sefydlu Gweithgorau.

Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Cadarnhaodd JM ddyddiad newydd ar gyfer y digwyddiad uchod – 3 Chwefror 2022 yn y Ganolfan Ryngwladol, Telford, yn dilyn gohirio'r digwyddiad ym mis Mehefin 2020 oherwydd pandemig Covid. Bydd Seremoni Wobrwyo'r Gadwyn Gyflenwi yn cael ei chynnal ar yr un diwrnod, gyda'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am 12:00 ar 1 Hydref 2021. Dywedodd mai dyma'r digwyddiad mwyaf ar gyfer y sector cadwyn gyflenwi yn Ewrop, gyda 1,700 o ymwelwyr a dros 300 o gyflenwyr.

Cynhaliwyd Fforwm Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar 11 Mehefin 2021, gyda David Peattie a Dr Ros Rivaz yn bresennol.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr McNamara am ei gyflwyniad, a gofynnodd iddo rannu dymuniadau da'r Grŵp â Jonathan Jenkin am wellhad buan.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

10. Y Prosiect Pyllau – Y diweddaraf am ddymchwel a gwaredu – Ian Warner

Croesawyd Mr Ian Warner i'r cyfarfod, a rhoddodd gyflwyniad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr uchod. Dyma grynnodeb:-

Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Canllawiau 'GRR' drafft a gyhoeddwyd yn 2018: y gweithredwyr a'r rhanddeiliaid i ystyried yr opsiwn gorau ar gyfer gwaredu'r gwastraff ymbelydrol sydd ar ôl sydd wedi cael ei halogi rywfaint, a gafodd ei greu yn ystod y rhaglen ddatgomisiynu
- Y strategaeth ar gyfer cyfadeilad pyllau Trawsfynydd wedi'i diwygio'n briodol
- Prosiect wedi'i sefydlu i gyflawni gwaith Cam 1: edrych ar nodweddion adeiladau; effeithiau ar yr amgylchedd; caniatâd cynllunio a thrwyddedau angenrheidiol, a gweithgarwch ymgysylltu parhaus

Hyd a lled y datblygiad arfaethedig

- Dymchwel ac ôl-lenwi cyfadeilad y pyllau er mwyn gweithredu 'Cyflwr Interim yr Ardal Waredu':
- Gwaredu, ar y safle, nodweddion ymbelydrol sydd wedi'u claddu (dim angen gwaith ffisegol)

Gwaith Ymgysylltu Arfaethedig

Magnox

Mae Magnox yn bwriadu cynnal gweithgareddau ymgysylltu anstatudol, gan gynnwys fideo drôn wedi'i animeiddio, i'w ddefnyddio mewn sesiynau briffio rheoleiddwyr/cynllunio/rhanddeiliaid; Darparu gwybodaeth/diweddariadau ar-lein; Sesiynau briffio anffurfiol gyda rhanddeiliaid; mynd i ddigwyddiadau cymunedol lleol cyn ymgeisio, a sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r gymuned

Avison Young

Bydd Avison Young yn cynrychioli Magnox ar gyfer yr holl weithgareddau statudol, gan gynnwys cydlynu a rheoli'r ymgynghoriad cyhoeddus cyn ymgeisio. Bydd hefyd yn datblygu'r adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio, a fydd yn amlinellu'r dadansoddiad a'r fethodoleg ymgynghori orfodol

Crynodeb

- Mae'r cais cynllunio yma'n sefyll ar ei ben ei hun
- Mae sicrhau bod cyfadeilad y pyllau yng Nghyflwr Interim yr Ardal Waredu yn rhyddhau lle y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau datgomiysynu yn y dyfodol
- Mae cymhlethdodau i'r cais;
rydym yn ceisio sicrhau Cytundeb Perfformiad Cynllunio i hwyluso'r gwaith o ymgysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a'r corff sy'n cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy
- Bydd Magnox yn cydweithio â'r Cwnsler Cyffredinol i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Datganiad Amgylcheddol a'r cais cynllunio

Diolchodd y Cadeirydd i IW am ei gyflwyniad, a dymunodd yn dda iddo gyda'i ymddeoliad sydd ar y gorwel.

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

11. Unrhyw fater arall

- **Ardal Fenter Eryri – Dr John Idris Jones**

Croesawyd Dr John Idris Jones i'r cyfarfod, ac roedd yntau hefyd am ddymuno'n dda i Ian Warner ar ei ymddeoliad. Roedd hefyd yn dymuno rhannu'r newyddion da ynghylch ailddechrau prentisiaethau yn Traws – cyfleoedd gwych i bobl ifanc leol. Aeth ymlaen i roi diweddariad byr ar ddatblygiadau'r Ardal Fenter fel a ganlyn:-

Llanbedr

- Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi gwefan awyrofod Cymru – Llwybr i'r Gofod.
- Mae'r Llywodraeth Ganolog yn trafod sut i reoleiddio safleoedd fel Llanbedr, ac mae rhan o'r gwaith yn cynnwys darpariaeth awyrofod ym Mae Ceredigion. Mae'n aros i arolwg CAA ddod i ben ddiwedd y mis.
- Seilwaith – mae cyllid wedi cael ei glustnodi ar gyfer ffordd osgoi a mynedfa newydd, a bydd y gwaith yn dechrau ym mis Chwefror 2022.

Trawsfynydd

SMR – mae astudiaethau'n cael eu cynnal ar yr effaith economaidd ar Ogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Mae Cwmni Eginio yn cael ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yr wythnos hon. Penodwyd JIJ yn Gadeirydd Dros Dro y cwmni, a mynegodd ei ddymuniad i barhau â'r cydweithio da a wnaed gyda phartneriaid hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i JIJ am ei ddiweddariad, gan ei longyfarch ar gael ei benodi'n Gadeirydd Cwmni Egin. Roedd Gareth Thomas, aelod o Gabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi, yn falch o nodi'r datblygiadau uchod, ac yn ategu llongyfarchiadau'r Cadeirydd i JIJ.

- **Y diweddaraf am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox – Mair Jones**

Dyweddodd Mair Jones fod adroddiad llawn ar wariant wedi'i gynnwys yn y pecyn, a'i bod yn fodlon ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ar mair.jones@magnoxsites.com neu 07850 921669

Dymunodd y Cadeirydd yn dda hefyd i Michelle Humphreys yn ei swydd newydd ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth yn cefnogi'r safle fel Arweinydd Rhanbarthol, ac am ei gwaith gyda'r Cynllun Economaidd-Gymdeithasol.

12. Cyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Dyddiad: 9 Rhagfyr 2021